

GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG AR OFALWYR DI-DÂL: DISGRIFIAD O'R RÔL AR GYFER AELODAU SY'N OFALWYR DI-DÂL

- PENODIAD:** Aelod sy'n Ofalwr Di-dâl [----] Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl
- YN GWEITHIO GYDA:** Llywodraeth Cymru, partneriaid statudol (cyngorau lleol, byrddau iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol), rhwydweithiau'r trydydd sector, swyddfeydd y comisiynydd annibynnol ac ymchwilwyr.
- AD-DALIAD:** Ar sail wirfoddol gydag ad-daliad llawn am gostau rhesymol*.
- HYD Y PENODIAD:** Dwy flynedd
- YMRWYMIAD AMSER:** Disgwylir ichi fod yn bresennol mewn oddeutu 6 cyfarfod y flwyddyn (gan gynnwys cyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen). Bydd hefyd angen ichi sicrhau amser ar gyfer darllen a pharatoi. Nifer lleiaf o oriau y flwyddyn yw 16 awr (4 x cyfarfod Grŵp Cyngori'r Gweinidog 2 awr o hyd, 2 x cyfarfod Gorchwyl a Gorffen awr o hyd, 6 awr o ddarllen papurau cyfarfodydd).

Mae gan aelodau Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ofalwyr rôl ddeuol:

- Cyfrannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd penodol at rôl gynghori ar y cyd Grŵp Cyngori'r Gweinidog gan ddod a'u safbwyntiau a'u profiadau o ofalwyr a gofalu er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Gweinidog, yn ogystal â dylanwadu ar bolisiâu ynghylch gofalwyr a'r modd y cânt eu gweithredu.
- Cymryd cyfrifoldeb dros ysgogi newid a gwelliant ar gyfer gofalwyr.

Mae cyfrifoldebau Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn cynnwys:

- Rhoi cipolwg ar yr heriau strategol a gweithredol o ran cyflawni'r pedair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl ar draws sectorau, a chydweithio er mwyn eu datrys.
- Canfod a datblygu syniadau a datrysiadau newydd mewn ymateb i'r gwahanol faterion sy'n wynebu gofalwyr di-dâl.
- Cyngori Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch heriau a datrysiadau.
- Sicrhau fforwm cenedlaethol i oruchwylio'r gwaith cyflawni yn erbyn y pedair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl yn ogystal â'r camau gweithredu y cytunir arnynt i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.
- Ystyried a chynghori ar ddefnydd Llywodraeth Cymru o gyllid ar gyfer gofalwyr di-dâl ac ar effeithiolrwydd ac effaith y buddsoddiad hwn yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd.

- Rhoi cyngor ar sut y dylid dyrannu cyllid yn y blynyddoedd sydd i ddod er mwyn cefnogi'r gwaith cyflawni parhaus yn erbyn y blaenoriaethau cenedlaethol.
- Cyngori ar ddulliau mesur gwelliant yn erbyn y blaenoriaethau cenedlaethol a chysoni camau gweithredu y cytunir arnynt er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hynny.
- Sicrhau fforwm ar gyfer rhannu cynnwys gan ofalwyr mewn cynlluniau lleol a rhanbarthol a chynnal adolygiad ohono gan gymheiriaid.
- Hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o nodi arferion da yng Nghymru, a thu hwnt, ac ystyried sut y gellid rhoi arferion da ar waith yn eang er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i ofalwyr yng Nghymru.

Mae eich dyletswyddau yn cynnwys:

- Cyfrannu at waith pwyso a mesur Grŵp Cyngori'r Gweinidog mewn modd cadarnhaol ac adeiladol gan wneud defnydd o'ch profiadau, eich mewnwelediad a'ch dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl.
- Paratoi at y cyfarfodydd gan ddarllen yr agenda a'r papurau o flaen llaw a chodi unrhyw faterion cyn y cyfarfodydd.
- Datgan unrhyw wrthdrawiad buddiannau posibl neu rai gwirioneddol.
- Sicrhau bod papurau agenda, trafodaethau a phenderfyniadau a wneir yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Peidiwch â rhannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a ddaw i'ch meddiant yn sgil bod yn aelod o Grŵp Cyngori'r Gweinidog. Os ydych chi'n ansicr a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, gofynnwch am gadarnhad.
- Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd Grŵp Cyngori'r Gweinidog a chyfarfodydd perthnasol eraill fel y bo'n briodol ac fel y cytunwyd rhyngoch chi a'r Cadeirydd.

Byddwch yn cael y gefnogaeth a ganlyn:

- Cyfnod cynefino i'ch helpu i ddeall rôl Grŵp Cyngori'r Gweinidog a'i waith.
- Cefnogaeth benodedig ar holl faterion ymarferol megis cefnogaeth gyda chymorth TG er mwyn bod yn bresennol mewn cyfarfodydd ar-lein, hawlio costau, cael gafael ar bapurau cofnodion, sicrwydd bod dogfennau yn cael eu hanfon mewn da bryd, cymorth yn ystod cyfarfodydd, atebion i ymholiadau ac unrhyw gyngor ychwanegol yn ôl yr angen.
- Yn ogystal, byddwch yn cael eich galluogi i ddysgu cymaint ag y teimlwch sydd ei angen am waith Grŵp Cyngori'r Gweinidog er mwyn ichi gyflawni'r rôl hon. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn trefniant ar y cyd â chi ar adeg ac mewn modd sy'n dderbyniol ichi.
- Cyfarfodydd cyn bob cyfarfod Grŵp Cyngori'r Gweinidog er mwyn trafod papurau a rhoi cymorth os oes angen.
- Bydd trefniadau 'gyfeillio' yn cael eu rhoi ar waith os oes angen.

* Costau rhesymol: telir costau teithio a chynhaliaeth ar gyfraddau Llywodraeth Cymru, e.e. cyfradd fesul milltir CThEF o 45c y filltir. Gellir hawlio ad-daliad am gostau cynhaliaeth, e.e. pan fydd angen prynu bwyd neu aros dros nos i fynd i gyfarfod wyneb yn wyneb. Gellir hawlio am unrhyw ofal y bydd rhaid ei drefnu er mwyn cefnogi aelod i gyflawni ei rôl.